# Rhaglen Stondin Prifysgol Aberystwyth

Eisteddfod Genedlaethol – Llŷn ac Eifionydd 2023



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2023
YN Y 5 UCHAF AM ANSAWDD Y DYSGU A PHROFIAD MYFYRWYR

113274-25.07.23

# **Dydd Llun,** Awst 7

11:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Addysg, Amser a Lle

Ymchwil diweddar ar faterion cyfoes yn y byd addysg yng Nghymru gan yr Ysgol Addysg, Prifysgol Aberystwyth.

- **Dr Rhodri Aled Evans:** 'Trosglwyddo mewn Pandemig: profiadau disgyblion a rhieni o gartrefi di-Gymraeg o drosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.'
- **Dr Lucy Trotter:** 'Profiadau rhieni sengl a oedd yn astudio mewn prifysgolion y DU yn ystod y pandemig COVID-19.'
- **Dr Delyth Jones:** 'Pam fod disgyblion uwchradd yng Nghymru yn dewis astudio Ieithoedd Tramor Modern fel pwnc TGAU?'
- **Dr Andrew James Davies:** 'Pobl ifanc fel dewiswyr strategol: gwerthuso'r dystiolaeth am addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg.'

15:20 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Ysbryd y Frwydr: Dathlu 20 mlynedd o Wobr Ifor Davies

Cyhoeddir enillydd y wobr eleni yn Y Lle Celf ac yn parhau'r digwyddiad 'Dathlu 20 mlynedd o Wobr Ifor Davies' ym mhabell Prifysgol Aberystwyth gyda dangosiad ffilm gan Pete Telfer, a sgyrsiau anffurfiol gan gyn-enillwyr y wobr.

16:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Seremoni'r Coroni

Dewch draw i wylio'r Coroni ar ein sgrin fawr dros baned a chacen.

## **Dydd Mawrth,** Awst 8

11:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### ***Cafflogion*** **a Garn Fadryn:**
### **Tirwedd Dychymyg R. Gerallt Jones**

Trafodaeth ar nofel wyddonias R. Gerallt Jones, *Cafflogion* (enillydd y Fedal Ryddiaith ym 1979) a'i chyswllt ag ardal ei febyd, sef pentref Llaniestyn a mynydd Carn Fadryn (y medrir ei weld o Faes yr Eisteddfod).

15:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### **100 mlynedd o ddarlledu yn Nghymru**

Mae'r BBC yn dathlu canrif o ddarlledu yng Nghymru eleni. Fe fydd y ddarlith hon yn cloriannu cyfraniad y Gorfforaeth i fywyd Cymru ers 1923.

16:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### **Podlediad Clera**

Dewch i wylio rhan o bodlediad Clera'n cael ei recordio'n fyw gydag Eurig Salisbury, Aneirin Karadog, Gruffudd Antur a gwesteion arbennig!




**Credyd llun:** freepik.com/stories

# **Dydd Mercher,** Awst 9

10:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Sgwrs gyda thîm Tystysgrif Addysg i Raddedigion Prifysgol Aberystwyth

Dewch am sgwrs ac i gyfarfod aelodau o'r tîm i ddarganfod mwy am y cwrs TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion).

11:00 | Cymdeithasau 1

## Cymru, Daearyddiaeth, a Hanes Gwyddoniaeth

**Darlith Flynyddol EG Bowen**

Roedd Emrys George Bowen FRGS, FSA (28 Rhagfyr 1900 – 8 Tachwedd 1983) yn ddaearyddwr o fri rhyngwladol oedd â diddordeb arbennig yn naearyddiaeth ffisegol a daearyddiaeth gymdeithasol Cymru. Traddodir y ddarlith flynyddol hon gan ymchwilydd disglair o'r Brifysgol lle y bu Bowen yn darlithio o'r 1920au hyd at ei farwolaeth yn 1983, sef Prifysgol Aberystwyth.

11:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Lansiad cyfrol deyrnged yr Athro Emeritws Gruffydd Aled Williams, *Penrhaith ein Heniaith Ni*

Lansiad cyfrol deyrnged yr Athro Emeritws Gruffydd Aled Williams, *Penrhaith ein Heniaith Ni*, yng nghwmni Aled a golygyddion y gyfrol, T. Robin Chapman a Bleddyn Owen Huws o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol. Cadeirir y digwyddiad gan Mererid Hopwood a bydd Alaw Mai Edwards yn bresennol ar ran gwasg Atebol. Bydd cyfle i brynu copïau ar y diwrnod a chwrdd â rhai o'r cyfranwyr.

14:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Aduniad Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Wedi astudio yn Aberystwyth? Dewch draw i'r stondin i hel atgofion gyda hen ffrindiau!

## **Dydd Iau,** Awst 10

11:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### Hyfywedd cymunedau Cymraeg a Thwristiaeth

**Sesiwn CWPS a CUPHAt Prifysgol Aberystwyth ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Bydd y sesiwn hon yn trafod oes ffyrdd y gall twristiaeth gefnogi cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Wrth edrych i'r dyfodol sut allai twristiaeth ddatblygu i gefnogi hyfywedd cymunedau Cymraeg?

13:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### Llinellau i'w llefaru

O ble daeth yr arfer o ddatgan cerddi a rhyddiaith? Beth sy'n gwneud darn yn un da i'w lefaru? A beth ddylai'n beirdd a'n llenorion fynd ati i'w greu ar gyfer y llefarwyr? Guto Dafydd yn holi Mererid Hopwood a Cefin Roberts. **#Llwyd@60**

15:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### Cyhoeddi enillwyr Gwobrau Cyfieithu DarParu

Cyfle i ddathlu cyfieithwyr ifanc a chyhoeddi enillwyr y gystadleuaeth gyfieithu i bobl ifanc 16-21 oed. Noddir y gystadleuaeth gan Ganolfan Hyfforddiant Iaith DarParu, Prifysgol Aberystwyth.

## **Dydd Gwener,** Awst 11

10:00-18:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### Gweithgareddau Nyrsio

Dewch draw i'r stondin i gyfarfod a'n staff Nyrsio, a chael cyfle i fesur eich pwysedd gwaed a llawer mwy!

11:00 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

### Ymgyrchu ymysg pobl ifanc

**Sesiwn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth**

Beth yw'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc wrth ymgyrchu'n wleidyddol? Oes rhywbeth penodol Cymreig am yr ymgyrchu a welir ymysg pobl ifanc? Trafodaeth banel gyda myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

# Dydd Gwener, Awst 11

12:00 | Cymdeithasau 1

## Deall 'Cenedlaetholdeb y Tlawd': Trafodaeth banel

**Sesiwn Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth**

Trafod y syniad o 'Genedlaetholdeb y Tlawd' a'i effaith ar strategaethau mudiadau cenedlaetholgar. Trafodir canfyddiadau prosiect IMAJINE arweiniwyd gan Brifysgol Aberystwyth am Gymru a Chorsica a chael ymateb arbenigwyr o brifysgolion Bangor a Chaerdydd.

13:30 - 14:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth
(Dyfodol Cyfansoddiadol ar y stondin drwy'r dydd)

## Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Sgwrs gyda'r Athro Anwen Elias a'r Athro Laura McAlister

**Sesiwn Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth ar y cyd â'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

Cyfle i glywed a thrafod y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y Comisiwn hyd yn hyn gan gynnwys yr opsiynau a nodir yn yr adroddiad a'r ymgyrch ymgysylltu barhaus i glywed gan bobl ledled y wlad.

14:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Aduniad Haf UMCA

Cyfle i fyfyrwyr cyfredol UMCA rannu eu straeon am holl anturiaethau'r haf. Band Bwca yn perfformio'n fyw ar y stondin.

16:30 | Stondin Prifysgol Aberystwyth

## Seremoni'r Cadeirio

Dewch draw i wylio'r Cadeirio ar ein sgrin fawr dros baned a chacen.